Y Gwir Anrhydeddus Laura Trott MBE AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

Copi i: Canghellor y Trysorlys; Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys; Pwyllgor y Trysorlys; Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol; Pwyllgor Cyllid; Cynulliad Gogledd Iwerddon

26 Mawrth 2024

Cyfarfod o Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid: Tŷ Portcullis, 21 Mawrth 2024

Annwyl Laura

Rydym yn ysgrifennu atoch chi fel arweinydd buddiant y Trysorlys o ran datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ran Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid (yr IFCF).

Sefydlwyd y IFCF ym mis Mehefin 2022 gan Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban a Phwyllgor Cyllid Senedd Cymru i roi llais cyfunol i'r deddfwrfeydd datganoledig i godi materion o ddiddordeb a phryder cyffredin gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Nod y IFCF yw darparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, i glywed oddi wrth Weinidogion perthnasol, ac i ystyried heriau yr ydym oll yn eu hwynebu.

Mae swyddogion Cynulliad Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd yn mynychu cyfarfodydd y IFCF fel sylwedyddion, a'r gobaith yw y bydd ei Bwyllgor Cyllid yntau yn gallu ymuno â'r IFCF yn yr wythnosau nesaf.

Cynhaliwyd ein trydydd cyfarfod yn Nhŷ Portcullis yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Iau 21 Mawrth 2024, pan wnaethom gwrdd ag Aelodau o Bwyllgorau perthnasol Tŷ'r Cyffredin, â chyn

Weinidog Trysorlys EF, â'r Institute for Government, a chyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fel rhan o'n trafodaethau am graffu cyllidol, buom hefyd yn trafod sut mae Trysorlys EF yn rhyngweithio â'r llywodraethau datganoledig wrth ddatblygu Cyllideb y DU a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â hi. Y nod oedd meithrin gwell dealltwriaeth o'r heriau a wynebir o ran craffu ar gyllidebau datganoledig, ac i rannu gwybodaeth am y gwahanol ddulliau o graffu ar gyllidebau, a'r rhagolygon sy'n gysylltiedig â hwy, gan y seneddau. Roedd y IFCF yn teimlo bod y cyfarfodydd hyn yn hynod ddefnyddiol ac mae'n ddiolchgar i bawb a gymerodd ran ynddynt.

Roeddem yn hynod siomedig bod Gweinidogion a swyddogion Trysorlys EF wedi gwrthod cyfarfod â'r IFCF tra'n bod yn Llundain. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i ddatblygu perthnasoedd a gwell dealltwriaeth o'n priod rolau, gan gynnwys sut y mae Trysorlys EF yn ymdrin â phenderfyniadau cyllidebol a'u heffaith ar y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae dull Trysorlys EF yn adlewyrchu profiad diweddar y ddau Bwyllgor o fethu â sicrhau sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Canghellor a/neu Weinidogion eraill y Trysorlys, er gwaethaf gwahoddiadau mynych. Mae hefyd yn gwyro oddi wrth ddull eich rhagflaenwyr o ran sesiynau seneddol blaenorol. Mae'n hynod siomedig, ac mae'n atal gwaith craffu effeithiol ar y sefyllfa gyllido gyffredinol yn y gwledydd datganoledig. Fel y gwyddoch, mae cyllidebu effeithiol yn hanfodol yng nghyd-destun y pwysau cyllidol cyffredin a wynebir gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae rhagor o ddatganoli a rhannu pwerau dros y blynyddoedd diwethaf hefyd wedi arwain at gysylltiadau agosach rhwng penderfyniadau cyllidebol yn y DU a'r gwledydd datganoledig. Felly byddai trafod y materion hyn gyda Thrysorlys EF yn ddefnyddiol iawn, ac felly rydym yn eich annog chi a/neu'r Canghellor i roi tystiolaeth i'n Pwyllgorau pan ofynnir i chi.

Mater sy'n peri pryder penodol yw amseriad mwyfwy amrywiol Datganiad yr Hydref sydd, dros y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf, wedi arwain at bwysau ychwanegol o ran yr amser sydd ar gael i'r Senedd a Senedd yr Alban gynnal eu gwaith craffu dilynol ar gynigion cyllidebol y Llywodraeth ddatganoledig. Yn ogystal â rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn, byddem hefyd yn croesawu ymdrechion gennych i roi rhagor o sicrwydd i'r llywodraethau datganoledig ynghylch cynlluniau gwariant amlflwyddyn, ac i rannu gwybodaeth yn gynharach, yn enwedig o ran amcangyfrifon atodol terfynol a all gael effaith sylweddol ar gynlluniau cyllideb yn ystod y flwyddyn.

Mae’r IFCF yn awyddus i ail-agor y ddeialog â Thrysorlys EF ar y materion hyn a materion cysylltiedig, ac mae’n parhau’n barod i groesawu Gweinidogion i Senedd Cymru a Senedd yr Alban i gefnogi ein priod waith craffu ar faterion cyllidebol. Rydym felly yn eich gwahodd i roi gwybod inni sut yr hoffech ymgysylltu â’r Seneddau datganoledig.

Rydym i fod i gyfarfod nesaf fel IFCF yn ddiweddarach eleni. Edrychwn ymlaen felly at gael ymateb i’r llythyr hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2024.

Yn gywir



Kenneth Gibson ASA
Cynllunydd
Y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd yr Alban



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru